Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesurau Bioddiogelwch Cymru

# Rhestr wirio hunanasesu ar gyfer ceidwaid adar hela



Dylai unrhyw un sy'n cadw adar hela lenwi'r ffurflen hon (a'i diweddaru yn dilyn unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau) a'i chadw fel cofnod am gyfnod y Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) yng Nghymru. Mae'n bosibl y gofynnir i geidwaid gyflwyno rhestr wirio wedi'i chwblhau i'w harchwilio.

Yn y datganiad AIPZ fe welwch restr o fesurau bioddiogelwch gorfodol y mae'n rhaid eu gweithredu ar eich safle. Lle rydych wedi ateb "Nac oes/Nac ydyn/Nac ydy" ar y ffurflen hon, rhaid i chi gymryd camau i wella eich bioddiogelwch, i gydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch gorfodol yn y datganiad AIPZ.

Yn y ffurflen hon, ystyr aderyn hela yw unrhyw:

- ffesantod
- petris
- grugieir gwyn
- grugieir neu adar hela gwaun
- grugieir du
- hwyaid a fridwyd ar gyfer saethu

Cydnabyddir nad yw rhai o'r rhywogaethau hynny yn cael eu magu yn gyffredin mewn caethiwed.

Enw'r Fferm/Safle lle cedwir adar:

| |
|---|
| |

Cyfeiriad:

| |
|---|
| |

Rhif Ffôn/Ffôn Symudol Cyswllt:

| |
|---|
| |

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53418
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

CPH (os yw'n berthnasol):

Math o fenter (bridio, magu, deorfa ac ati):

Niferoedd a rhywogaethau stoc arferol:

**Cwblhawyd gan:**

Enw:

Dyddiad:

Llofnod: *(Nodwch mewn Priflythrennau)*

Statws: *(e.e. Perchennog, Ceidwad ac ati)*

### Cofrestru

Ydych chi wedi cofrestru ar Gofrestr Ddofednod Prydain Fawr? Rhaid i bob ceidwad adar gofrestru eu hadar (ac eithrio'r psittacines hynny (*parotiaid, cocatŵiaid a byjerigars) a'r passerines (adar bach sy'n clwydo, megis pincod, golfanod, titwod, drywod a sgrechod y coed*) *sy'n cael eu cadw'n barhaol naill ai mewn annedd, neu mewn tŷ adar ar yr un safle heb fynediad i'r awyr agored*) – mae hwn yn ofyniad cyfreithiol.

Cofrestru dofednod – GOV.UK

### Bioddiogelwch

Mae bioddiogelwch effeithiol yn hanfodol yn y sector adar hela i atal cyflwyno a lledaenu clefydau heintus, gan ddiogelu iechyd anifeiliaid a pharhad busnes. Trwy weithredu mesurau cadarn, gall cynhyrchwyr ddiogelu bywyd gwyllt a chynnal safonau lles uchel.

At ddibenion y ffurflen hon ystyr "safle" yw unrhyw dŷ, sied, tŷ adar, maes, cwt, tir wedi'i amgáu gan netin, corlan ryddhau, neu ardal debyg a ddefnyddir i gadw adar hela.

**1. Manylion y safle**

Tynnwch neu atodwch gynllun o'ch safle, mannau bioddiogelwch, dipiau traed.

| |
|---|
| |

**Holiadur**

**2. Pwy sy'n delio â'ch adar bob dydd?**

Enwch a rhowch fanylion cyswllt os ydynt yn wahanol i'r manylion cyswllt ar dudalen 1.

| |
|---|
| |

**3. A yw pawb sydd â mynediad i'r safle lle mae adar hela yn cael eu cadw yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb dros Fioddiogelwch, gan gynnwys trosglwyddo haint yn ddamweiniol.**

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**4. Wrth y fynedfa i'r ardaloedd adar byw gan gynnwys corlannau rhyddhau, pa drefniadau bioddiogelwch sydd gennych ar waith?**

**Naill ai:**

a) dip traed sy'n cynnwys diheintydd dofednod wedi'i gymeradwyo gan y llywodraeth, o leiaf hyd at y ffêr/pigwrn ac o dan orchudd er mwyn osgoi ei fod yn cael ei wanhau gan law neu ddod i gysylltiad â golau UV. Mae diheintydd yn cael ei ail-lenwi'n rheolaidd. Cyn defnyddio'r dip traed, mae unrhyw bridd neu ddeunydd organig yn cael ei dynnu o esgidiau gyda brwsh.

Oes ☐ Nac oes ☐

**Neu:**

b) mae esgidiau pwrpasol yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r ardal adar byw neu yn y gorlan ryddhau

Oes ☐ Nac oes ☐

**5. A yw eich diheintydd wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth?**

Am y rhestr o ddiheintyddion cymeradwy, edrychwch ar:
www.disinfectants.defra.gov.uk/DisinfectantsExternal/Default.aspx?Module=ApprovalsList_SI

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Pa ddiheintyddion ydych chi'n eu defnyddio?

☐

Pa gyfradd wanhau rydych yn ei defnyddio ar gyfer eich diheintyddion?

☐

Pa mor aml ydych chi ei ail-lenwi?

☐

A yw'r cynhwysydd dip esgidiau dan orchudd? Ydy ☐ Nac ydy ☐

## 6. Bioddiogelwch Cyffredinol

i. Os ydych chi'n rhyddhau ffesantod a phetris coesgoch, beth yw'r gymhareb rhwng mannau bwydo ac adar hela ym mhob corlan ryddhau?

ii. Ydych chi'n sicrhau bod mannau bwydo dan orchudd i'w hatal rhag cael eu halogi â baw adar gwyllt? (lle bo'n bosibl dylid gorchuddio gorsafoedd dŵr hefyd)

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

iii. Ydych chi'n sicrhau bod cafnau bwydo, yfwyr, powlenni a llestri yn cael eu harchwilio bob dydd a'u glanhau fel y bo'n briodol i gael gwared ar garthion a phlu?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

iv. Ydych chi'n storio bwyd yn ddiogel i atal mynediad atynt gan adar a phlâu eraill e.e. mewn sied neu gynhwysydd diogel?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

v. Ydych chi'n sicrhau bod bwyd sydd wedi sarnu, a allai ddenu adar gwyllt, yn cael ei symud oddi yno bob dydd er mwyn osgoi denu adar gwyllt?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

vi. O fewn y gorlan (pan gaiff ei defnyddio) – Ydych chi'n symud mannau bwydo a dyfrio yn rheolaidd (o leiaf unwaith yr wythnos) er mwyn osgoi cronni deunydd ysgarthol a phlu?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

vii. Ydych chi'n bwydo adar hela (pan fyddant yn cael eu cadw mewn corlan) ymhellach na 500m o unrhyw ddofednod eraill neu adar eraill a gedwir?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

viii. Ydych chi'n archwilio'ch adar hela bob dydd am arwyddion o glefyd neu ymddygiad anarferol?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

ix. Ydych chi'n gwirio radiws o 50m o amgylch corlannau (tra byddant yn cael eu defnyddio) bob dydd am adar gwyllt marw?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

x. Ydych chi'n sicrhau bod stoc drig/cynhyrchion anifeiliaid ac ati (e.e. bwyd wedi sarnu, gwastraff cyffredinol, carcasau) yn cael eu gwaredu'n gywir? I gael rhagor o wybodaeth ewch i: Stoc drig a gwaredu anifeiliaid marw yn ddiogel – GOV.UK (www.gov.uk)

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

## 7. Cadw cofnodion

i. Mae cofnodion yn cael eu cadw am nifer yr adar a roddwyd mewn corlannau, marwolaethau ac arwyddion clinigol gan gynnwys dyddiadau.

Oes ☐ Nac oes ☐

ii. Mae cofnodion ymwelwyr yn cael eu cadw gydag enwau'r rhai sy'n mynd i'r corlannau (tra byddant yn cael eu defnyddio) gyda manylion cyswllt, dyddiadau, a phwrpas yr ymweliadau.

Oes ☐ Nac oes ☐

iii. Records of deliveries, collections, and live bird movements from or to the premises are kept with relevant contact details.

Oes ☐ Nac oes ☐

## 8. Rheoli cnofilod a phlâu

Disgrifiwch eich trefniadau rheoli cnofilod a phlâu o amgylch y safle. Os ydych chi'n defnyddio contractwyr, rhowch eu manylion.

|  |
| --- |
|  |

**9. Sawl rhywogaeth o adar**

Os ydych chi'n cadw sawl rhywogaeth o adar ar y safle e.e. ffesantod, hwyaid a phetris, disgrifiwch y trefniadau presennol ar gyfer eu gwahanu.

| |
|---|
| |

**10. Ydych chi'n cyfyngu mynediad i'ch ffesantod a'ch petris (a gedwir mewn corlannau) i byllau a chyrsiau dŵr?**

Mae pyllau a chyrsiau dŵr yn denu adar dŵr gwyllt, fel hwyaid gwyllt, gwyddau ac elyrch sy'n gallu cario'r feirws ffliw adar a'i ledaenu heb ddangos unrhyw arwyddion o salwch.

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

Rhowch fanylion sut y mae'r gwahanu hwn yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| |

**Cadwch y ffurflen wedi'i chwblhau yn eich cofnodion fel y gellir ei chyflwyno ar gais gan yr asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Awdurdod Lleol, neu asiantaethau eraill. Dylid adolygu'r rhestr wirio hunanasesu yn flynyddol.**

# Arwyddion o ffliw adar

Mae adar sydd wedi'u heintio â'r straen mwyaf difrifol o ffliw adar, a elwir yn ffliw adar pathogenig iawn (HPAI), fel arfer yn dangos rhai o'r arwyddion canlynol (neu bob un ohonynt).

- marwolaeth sydyn
- pen wedi chwyddo
- llygaid ar gau ac yn rhedeg
- syrthni ac iselder
- gorwedd i lawr a diffyg ymateb
- diffyg cydsymud
- bwyta llai na'r arfer
- syrthni
- cynnydd neu ostyngiad sydyn yn y defnydd o ddŵr
- pen a chorff yn ysgwyd
- adenydd llipa
- llusgo coesau
- y pen a'r gwddf yn troi
- chwyddo a lliw glas ar y grib a thagellau
- gwaedlifau a chochni ar goesau ac o dan groen y gwddf
- anawsterau anadlu fel gapo (anadlu drwy'r geg), snicio trwynol (sŵn peswch), tisian, gyrglan, neu sŵn rhuglo
- twymyn neu gynnydd amlwg yn nhymheredd y corff
- baw dyfrllyd rhydd neu wedi newid lliw
- cynhyrchu wyau wedi stopio neu wedi gostwng yn sylweddol.

Gall rhai rhywogaethau fel hwyaid, gwyddau ac elyrch gario feirws ffliw adar a'i ledaenu heb ddangos unrhyw arwyddion o salwch.

Mae'n bosibl na fydd adar sydd wedi'u heintio â'r straen llai difrifol o ffliw adar, a elwir yn ffliw adar pathogenig isel (LPAI) yn dangos arwyddion clir o haint. Mae'n bosibl y bydd ganddynt broblemau anadlu ysgafn. Gall yr arwyddion hyn nodi ffliw adar, ond dim ond trwy brofion labordy y gellir cadarnhau'r feirws ffliw adar.

Os ydych chi'n poeni am iechyd eich adar, siaradwch â'ch milfeddyg preifat.

Os ydych yn amau bod eich adar a gedwir wedi'u heintio â ffliw adar, **rhaid i chi roi gwybod ar unwaith** drwy ffonio APHA Cymru ar **03003 038 268**.

Mae ffliw adar yn glefyd hysbysadwy mewn dofednod ac adar caeth eraill. Os na fyddwch chi'n rhoi gwybod amdano, rydych chi'n torri'r gyfraith.

**Rhowch wybod am unrhyw adar gwyllt marw** (gan gynnwys adar hela sydd wedi troi'n wyllt) ar system ar-lein DEFRA ar GOV.UK neu drwy ffonio llinell gymorth DEFRA ar **03459 33 55 77**. Dylai unigolion gofnodi'r rhif cyfeirnod unigryw fel tystiolaeth bod yr achos wedi'i adrodd. Bydd yr adroddiad yn cael ei frysbennu a gellir casglu'r carcasau er mwyn eu profi. Os nad ydynt yn cael eu casglu o fewn 96 awr, gellir tybio nad oes eu hangen ar gyfer profion Ffliw Adar, a rhaid gwaredu'r carcasau yn briodol. I gael gwybodaeth am waredu carcasau, gweler: Symud ymaith a gwaredu adar gwyllt marw.